Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Ffurflen ymateb

**Gorffennaf 2025**

# Am y ffurflen ymateb yma



Darllenwch y brif ddogfen o'r enw **Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.



Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma.




Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i ni erbyn **8 Hydref 2025**.




**Ar-lein:**

Rydych chi'n gallu llenwi ein ffurflen ymateb ar-lein: [https://www.llyw.cymru/rheoliadau-arfaethedig-ar-gyfer-taliadau-uniongyrchol-ym-maes-iechyd-gofal-cymdeithasol](https://www.llyw.cymru/rheoliadau-arfaethedig-ar-gyfer-taliadau-uniongyrchol-ym-maes-iechyd-gofal-cymdeithasol)



**E-bost:**

Rydych chi'n gallu llenwi'r ffurflen yma ar eich cyfrifiadur a'i hanfon drwy e-bost at:

IGC.YmgynghoriadTaliadauUniongyrchol@llyw.cymru



**Neu ei argraffu a'i bostio i:**

Tîm Polisi Taliadau Uniongyrchol
Yr Is-adran Cynhwysiant a Busnes Corfforaethol
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni trwy:
[TaliadauUniongyrchol@llyw.cymru](mailto:TaliadauUniongyrchol@llyw.cymru)



**Neu ysgrifennwch at:**

Tîm Polisi Taliadau Uniongyrchol
Yr Is-adran Cynhwysiant a Busnes Corfforaethol
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei ddeall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cwestiynau

## Newid y rheolau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol

Darllenwch dudalen **9** o'r brif ddogfen.




**1. Beth ydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer newid y rheolau?**

# Syniadau ar gyfer y rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd



## Pwy sydd yn gallu cael taliadau uniongyrchol

Darllenwch dudalennau **10 i 17** o'r brif ddogfen.

**2. Beth ydych chi'n feddwl am y rheolau ar gyfer pwy sydd yn gallu cael taliad uniongyrchol?**

Mae hyn yn cynnwys:

- Oedolion a phlant
- Cynrychiolwyr
- Enwebeion
- Beth mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried

Dywedwch wrthyn ni os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei newid.

## Penderfynu gwneud taliad uniongyrchol



Darllenwch dudalennau **18 i 21** o'r brif ddogfen.

Fe wnaethon ni ysgrifennu am:

- Pwy ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol drafod eu penderfyniad efo.
- Beth ddylen nhw feddwl amdano wrth wneud eu penderfyniad.
- Sut i ddweud wrth bobl am eu penderfyniad.



**3. Beth ydych chi'n feddwl am y rheolau ar gyfer penderfynu gwneud taliad uniongyrchol?**

Darllenwch dudalennau **22 i 28** o'r brif ddogfen.



**4. Beth ydych chi'n feddwl am y rheolau ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth?**

Mae hyn yn cynnwys:

- Beth ddylai fod mewn cynlluniau gofal a chymorth
- Rheolau ar gyfer cydlynwyr gofal
- Rheoli risgiau
- Gwasanaethau na ellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer
- Taliadau un tros

## Gwybodaeth, cyngor a chymorth arall

Darllenwch dudalennau **27 i 28** o'r brif ddogfen.



**5. Beth ydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl?**

Dywedwch wrthyn ni os oes unrhyw beth ar goll, neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau.

## Rheolau ar gyfer pobl sy'n cael taliadau uniongyrchol

Darllenwch dudalennau **29 i 30** o'r brif ddogfen.



**6. Beth ydych chi'n feddwl am y rheolau mae'n rhaid i bobl eu dilyn pan fyddan nhw'n defnyddio taliadau uniongyrchol?**

Dywedwch wrthyn ni os oes unrhyw beth ar goll, neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau.

# Edrych ar ac adolygu taliadau uniongyrchol

Darllenwch dudalennau **31 i 33** o’r brif ddogfen.




**7. Beth ydych chi’n feddwl am y rheolau mae’n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol eu dilyn i edrych ar ac adolygu taliadau uniongyrchol?**

Dywedwch wrthyn ni os oes unrhyw beth ar goll, neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau.

## Talu taliadau uniongyrchol yn ôl

Darllenwch dudalennau **34 i 35** o'r brif ddogfen.




**8. Beth ydych chi'n feddwl am y rheolau ar gyfer gofyn i bobl dalu taliadau uniongyrchol yn ôl?**

Dywedwch wrthyn ni os oes unrhyw beth ar goll, neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau.

# Newidiadau i daliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol

Darllenwch dudalennau **36 i 37** o'r brif ddogfen.




**9. Fe wnaethon ni ysgrifennu am newid y rheolau, fel bod pobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol yn gallu dewis rhywun arall i reoli eu taliadau uniongyrchol.**

Beth ydych chi'n feddwl am y syniad yma?

# Sylwadau eraill




**10. Rydyn ni eisiau gwneud canllawiau i helpu pobl i ddeall y rheolau newydd. Pa bynciau neu faterion ddylai'r canllawiau hyn eu cynnwys?**



**11. Ydych chi'n meddwl y gallai'r rheolau newydd effeithio ar rai pobl yn fwy nag eraill? Er enghraifft, pobl â gwahanol gefndiroedd, neu anableddau.**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵ ☐




**Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau, os o gwbl?**

# Yr iaith Gymraeg

Cymraeg

**12. Sut ydych chi'n meddwl mae'r rheolau yn gallu effeithio ar yr iaith Gymraeg?**

Er enghraifft, a fydden nhw yn helpu pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg?




**13. Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun a fyddai'n helpu:**

- Pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- Cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

# Unrhyw beth arall?



**14. Ydych chi eisiau rhannu unrhyw beth arall nad ydyn ni wedi gofyn amdano?**




Diolch am ateb y cwestiynau yma.




Efallai y byddwn yn rhannu'r atebion rydyn ni'n eu derbyn mewn adroddiad neu ar y rhyngrwyd.




Rydych chin gallu darllen am sut rydyn ni'n cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel ac yn breifat: https://www.llyw.cymru/rheoliadau-arfaethedig-ar-gyfer-taliadau-uniongyrchol-ym-maes-iechyd-gofal-cymdeithasol




Os ydych chi eisiau i'ch ymateb aros yn breifat, ticiwch y blwch. ☐